Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

# Adolygiad o Gomisiynwyr Cymru

Gorffennaf 2023



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCCGG**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCCGG@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddArchwilio**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

# Adolygiad o Gomisiynwyr Cymru

Gorffennaf 2023

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCCGG**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Mark Isherwood AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Adam Price AS**
Plaid Cymru



**Natasha Asghar AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru

---

## Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Mabon ap Gwynfor AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Y cefndir** ........ **8**

**1. Cyllidebau** ........ **9**

Proses y Gyllideb ........ 9

Amser ........ 11

**2. Cynlluniau a heriau ariannol presennol, ac yn y dyfodol** ........ **18**

Y sefyllfa ariannol bresennol ........ 18

Effaith ar wasanaethau ........ 19

Pwysau o ran costau yn y dyfodol ........ 20

**3. Cydweithrediadau** ........ **24**

Arbedion/Manteision ........ 25

**Newidiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig)** ........ **27**

Y cefndir ........ 27

Effaith ........ 27

**4. Adolygiad ôl-ddeddfwriaethol** ........ **32**

**Atodiad 1: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** ........ **35**

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cytuno ar amserlen ar gyfer darparu gwybodaeth bob blwyddyn i lywio'r broses o baratoi cyllideb y Comisiynwyr. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor pan fydd wedi cytuno ar yr amserlen y mae'n bwriadu ei mabwysiadu. ........ Tudalen 15

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor a'r Comisiynwyr am y broses ar gyfer addasu'r amcangyfrifon a gyflwynir gan y Comisiynwyr. ........ Tudalen 15

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro pam nad yw'n ymddangos ei bod yn defnyddio'r broses addasu i adolygu amcangyfrifon y Comisiynwyr, ac yn egluro pam nad yw'r amcangyfrifon, o bosibl – fel y'u gosodwyd gerbron y Senedd – yn nodi'r cyllid y cytunwyd arno ar gyfer y Comisiynwyr. ........ Tudalen 15

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Gweinidogion Cymru yn cadarnhau'r dyraniadau cyllid i Gomisiynwyr yn unol ag amserlen ddiffiniedig, sy'n rhoi digon o amser i Gomisiynwyr gynllunio cyllidebau eu blynyddoedd dilynol yn unol â hynny, a'i bod yn cymryd agwedd gyson wrth wneud hynny. ........ Tudalen 16

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd y mae wedi'i wneud gyda'i rhaglen i symud i gylchoedd gwaith Tymor Llywodraethu ar gyfer ei chyrff hyd braich, ynghyd â gwybodaeth am yr amserlenni ar gyfer cwblhau'r ymarfer. ........ Tudalen 17

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Gweinidogion Cymru yn gosod amcangyfrifon Comisiynwyr Cymru gerbron y Senedd yn amserol, ac ar y cyfle cyntaf, bob blwyddyn yn dilyn eu penderfyniadau ynghylch dyraniadau cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. ........ Tudalen 17

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru – er mwyn bod yn agored ac yn dryloyw – yn cyhoeddi amcangyfrifon Comisiynwyr Cymru ar ei thudalennau ar gyfer y Comisiynwyr ar y we. ........ Tudalen 17

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Gweinidog perthnasol Cymru yn cadarnhau a gafodd Amcangyfrif Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar gyfer 2022-23 ei osod gerbron y Senedd, gyda manylion y dyddiad y gwnaed hynny. ........ Tudalen 17

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am y dyraniadau cyllid ychwanegol – a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2022 – ar gyfer cydraddoldeb cyflog yn y cyrff hyd braich. Dylai hyn gynnwys y dystiolaeth a oedd yn sail i'r penderfyniad ar y dyraniadau disgwyliedig a gwirioneddol, yn ogystal â sicrwydd bod y cyllid a ddyrannwyd yn bodloni'r costau cysylltiedig. ........ Tudalen 22

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am y broses sydd i'w mabwysiadu ganddi, neu Weinidogion Cymru, i fynd i'r afael â gwrthdaro buddiannau posibl, sy'n deillio o gynnwys y Comisiynwyr o fewn ffiniau cyfrifyddu Llywodraeth Cymru a'r cyfyngiadau cysylltiedig ar eu defnydd o gronfeydd wrth gefn. Yn fwyaf arwyddocaol, y risgiau cysylltiedig i annibyniaeth lle mae Comisiynydd yn gofyn am yswiriant cyllidebol ychwanegol neu gyllid ar gyfer adolygiad neu ymchwiliad i Weinidogion Cymru neu Lywodraeth Cymru. ........ Tudalen 31

**Argymhelliad 11.** Mae'r Comisiynwyr yn nodi materion o ran y cyfyngiadau ar eu defnydd o gronfeydd wrth gefn yn dilyn dynodi – o fis Chwefror 2022 – eu swyddfeydd yn ffiniau cyfrifyddu Llywodraeth Cymru. O ystyried y risg gysylltiedig i annibyniaeth a chanlyniadau anfwriadol eraill posibl, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu effaith y newidiadau ar ôl iddynt fod ar waith ers dwy flynedd, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor erbyn mis Medi 2024. ........ Tudalen 31

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth am y dystiolaeth sy'n cefnogi lefel y cynnydd yn y terfynau arian parod y cytunwyd arnynt ar gyfer Comisiynwyr, yn ogystal â'r ymgysylltiad rhwng y partïon yn ei gylch. ........ Tudalen 31

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r effaith ar y Comisiynwyr o'u dwyn o fewn ei ffiniau cyfrifyddu. Dylid cwblhau hyn ddwy flynedd ar ôl i newidiadau o'r fath fod ar waith, a dylid rhoi diweddariad i'r Pwyllgor erbyn mis Medi 2024. ........ Tudalen 31

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad y mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol wedi gofyn i'w swyddogion ei gynnal i gwmpas gwaith a chyfrifoldebau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Dylai'r diweddariad nodi'r amserlen ar gyfer ei gwblhau a pha bryd y mae swyddogion yn disgwyl rhoi cyngor i'r Gweinidog. ........ Tudalen 33

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu pob Comisiynydd, gan gynnwys y cyllid a ddyrennir iddynt a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor maes o law. .......... Tudalen 34

**Argymhelliad 16.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu a allai deddfwriaeth newydd effeithio ar gylch gwaith Comisiynwyr Cymru, gan sicrhau bod yna adnoddau digonol ar gyfer ymgorffori estyniadau i'w rolau a'u cyfrifoldebau. .......... Tudalen 34

# Y cefndir

**1.** Yn ei **adroddiad** yn dilyn ei waith craffu blynyddol ar waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (Ebrill 2022), **argymhellodd** Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd fod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn adolygu trefniadau adnoddau Comisiynwyr Cymru.

**2.** At hynny, argymhellodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol hefyd y dylai Llywodraeth Cymru werthuso cwmpas gwaith a chyfrifoldebau'r Comisiynydd "gyda'r bwriad o nodi cynllun i gefnogi unrhyw ehangu yn y dyfodol".

**3.** Ar 27 Ebrill 2022, gwnaeth y Pwyllgor **ystyried** argymhelliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a chytunodd i gynnal adolygiad, gan benderfynu ar 23 Tachwedd 2022 i geisio tystiolaeth ysgrifenedig yn gyntaf er mwyn deall y sefyllfa bresennol o ran **Llywodraeth Cymru** a'r **pedwar Comisiynydd yng Nghymru**:

- Comisiynydd Plant Cymru (Comisiynydd Plant).
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol)*[1].
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Comisiynydd Pobl Hŷn).
- Comisiynydd y Gymraeg.

**4.** At hynny, **nododd** y Pwyllgor ei gytundeb i ddychwelyd i waith craffu pellach ar waith Comisiynwyr Cymru fel rhan o'i waith craffu ar gyfrifon blynyddol.

**5.** Ymatebodd y Comisiynwyr a Llywodraeth Cymru i'r cais am wybodaeth, gyda'r ymatebion ar gael ar **dudalen ymchwiliad y Pwyllgor**.

**6.** Ar 30 Mawrth 2023, ystyriodd y Pwyllgor yr ymatebion, a chytunodd bod yr ymatebion a ddaeth i law yn ddigon i adrodd arnynt, ac nad oedd angen casglu unrhyw dystiolaeth bellach drwy sesiynau tystiolaeth lafar.

[1] Ar adeg casglu tystiolaeth, Sophie Howe oedd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac mae pob cyfeiriad yn yr adroddiad hwn at Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ymwneud â Ms Howe. Penodwyd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol newydd i Gymru – sef Derek Walker – ar 1 Mawrth 2023. Ni chyfrannodd at yr ymchwiliad hwn.

# 1. Cyllidebau

## Proses y Gyllideb

### Amcangyfrifon

**7.** Roedd ein hymgynghoriad ysgrifenedig yn ceisio safbwyntiau ar broses y gyllideb, gan gynnwys yr amserlenni ac ymgysylltiad Gweinidogion a swyddogion Cymru – megis y rheini mewn Timau Partneriaeth (noddwyr) o fewn adrannau Llywodraeth Cymru – â'r Comisiynwyr yn ystod y broses.

**8.** Mae eu deddfwriaeth lywodraethu yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynwyr gyflwyno eu hamcangyfrifon o incwm a threuliau (neu eu 'cyllidebau') i Weinidogion Cymru o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y maent yn berthnasol iddi, h.y. erbyn 31 Hydref bob blwyddyn.

**9.** Gofynnom pa wybodaeth a ddarperir gan swyddogion Llywodraeth Cymru, cyn i'r Comisiynwyr gyflwyno eu hamcangyfrifon, megis asesiad gorau Llywodraeth Cymru o lefel y cyllid sydd ar gael yn y dyfodol a'r ffactorau y dylai'r Comisiynwyr eu hystyried wrth baratoi eu hamcangyfrifon.

**10.** Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae swyddogion yn rhannu:

> *"…rhagdybiaethau Llywodraeth Cymru o ran cynllunio a phwysau fel rhan o'u hymgysylltiad â'r Comisiynwyr ac i gefnogi cyflwyno amcangyfrifon drafft yn gynharach. Helpodd hyn y Comisiynwyr i ragweld y pwysau cyllidebol ar wahanol agweddau o'r ddarpariaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod ac ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Cawsant eu hannog i fod yn bragmataidd yn eu gofynion ac i ystyried ffyrdd o wneud arbedion cost lle bynnag y bo modd."*

### Lefelau ariannu ac addasiadau i amcangyfrifon

**11.** Rhaid i Weinidogion Cymru archwilio'r amcangyfrifon y mae'r Comisiynwyr yn eu cyflwyno, cyn eu gosod gerbron y Senedd gydag unrhyw addasiadau sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.

**12.** Fel rhan o'u hystyriaeth o'r amcangyfrifon a gyflwynwyd, **dywedodd** Llywodraeth Cymru y bu Gweinidogion Cymru yn ystyried swyddogaethau'r Comisiynwyr a lefelau'r adnoddau sydd eu hangen arnynt. Trafodwyd materion

ariannu mewn cyfarfodydd rhwng y Comisiynwyr, timau partneriaeth a'r Gweinidog.

**13.** **Nododd** Llywodraeth Cymru bod yr adnoddau ar gyfer pob Comisiynydd yn gysylltiedig â'r rôl a nodir mewn deddfwriaeth. **Ychwanegodd** bod Comisiynydd y Gymraeg wedi cael cyfran fwy o gyllid na'r tri Chomisiynydd arall, a oedd yn adlewyrchu pwerau ehangach y Comisiynydd hwnnw o dan y **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**. **Yn ôl Llywodraeth** Cymru:

> *"Mae gweddill y Comisiynwyr yn cael oddeutu'r un lefelau o gyllid: er bod eu rolau a'u cyfrifoldebau'n amrywio, mae gan bob un alw tebyg ar adnoddau sy'n cael ei gymell i raddau helaeth gan gostau staffio."*

**14.** Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae prosesau ar waith i gytuno ar addasiadau i'r amcangyfrif; sut y cânt eu cyfathrebu a'u cytuno. Gofynnom pa mor arwyddocaol y mae'r addasiadau hyn wedi bod a'u heffaith ar waith a chynlluniau pob swyddfa.

**15.** Yn ôl y **Comisiynydd Plant**, nid oes proses y cytunwyd arni, i Weinidogion Cymru gytuno ar addasiadau i'r Amcangyfrif gyda hi, ac yn ôl y **Comisiynydd Pobl Hŷn** nid oedd hi wedi cael gwybod am unrhyw broses.

**16.** Yn ôl cyn **Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol**:

> *"My budget has been set by letter from the Deputy Minister and the publication of the Welsh Government budget, rather than by modification of my estimate after the event and the figures do not correspond to my estimates in the last few years, from what I can see."*

**17.** Nododd y Comisiynwyr nad ydyn nhw'n aml yn cael y cyllid llawn y gofynnon nhw amdano ac nad yw Gweinidogion Cymru/Llywodraeth Cymru yn egluro'r gwahaniaethau rhwng yr amcangyfrifon a gyflwynwyd gan y Comisiynwyr a'r cyllidebau/cyllid a ddyrannwyd. **Yn ôl** y Comisiynydd Plant:

> *"Ni chawn ein hysbysu ynghylch y rhesymau manwl pam nad yw ein hamcangyfrif cyllideb o bosib wedi cael ei ganiatáu'n llawn."*

**18.** **Nododd** y Comisiynydd Pobl Hŷn fel a ganlyn:

> *“Ni chefais yn yr ymateb i’n Hamcangyfrif [ar gyfer 2022-23] eglurhad manwl a fyfyriai ar fy Amcangyfrif nac ychwaith eglurhad ynglŷn â’r broses ar gyfer gwneud y penderfyniad.”*

**19.** Wrth nodi achosion lle na chaniatawyd ceisiadau am arian, **nododd** Comisiynydd y Gymraeg fel a ganlyn:

> *“Ers sefydlu’r Comisiynydd, nid yw’r Comisiynydd yn ymwybodol o addasiadau sydd wedi’u gwneud i’r Amcangyfrif wedi iddo gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru.”*

**20.** Fodd bynnag, **dywedodd** Llywodraeth Cymru hefyd mai ei nod hi – a swyddfeydd y Comisiynwyr – yw “[c]ytuno ar addasiadau os oes angen cyn cyflwyno'r amcangyfrifon terfynol ym mis Hydref”.

### Gosod amcangyfrifon gerbron y Senedd

**21.** Gwnaethom adolygu a ellid dod o hyd i amcangyfrifon y Comisiynwyr yn y dogfennau a osodwyd gan Weinidogion Cymru gerbron y Senedd. Canfuom fod rhai amcangyfrifon wedi’u gosod ar ddechrau’r flwyddyn ariannol yr oeddent yn ymwneud â hi, ac nid oeddem yn gallu cadarnhau bod Gweinidogion Cymru wedi gosod Amcangyfrif Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol ar gyfer 2022-23 gerbron y Senedd.

## Amser

### Hysbysiad o’r Gyllideb

**22.** Dywedodd y Comisiynwyr y gallent gael cadarnhad o’u cyllidebau yn hwyr yn y flwyddyn ariannol, ar adeg heb ei ddiffinio, a all effeithio’n sylweddol ar eu gwaith cynllunio ariannol, yn enwedig o ran adnoddau staffio, ac y gallai hyn greu ansicrwydd. **Yn ôl** y Comisiynydd Plant:

> *“Cawn gadarnhad o’n cyllideb yn hwyr yn ein cylch cynllunio strategol, weithiau mor hwyr â mis Ebrill yn y flwyddyn ariannol newydd, sy’n golygu bod gwneud cynlluniau busnes tymor hir yn eithriadol o anodd. Er ein bod yn cynnwys rhagolygon tair blynedd yn ein cyllideb, ni chawn ein hysbysu gan Lywodraeth Cymru beth fydd y setliad tebygol i ni mewn blynyddoedd i ddod.”*

**23.** Gwnaeth Comisiynydd y Gymraeg **adleisio** hyn, gan nodi'r ansicrwydd y mae'n yn ei greu:

> *"Mae gohebiaeth swyddogol yn cadarnhau cyllid y Comisiynydd wedi cyrraedd yn hwyr iawn gan greu ansicrwydd wrth lunio cyllideb y flwyddyn ganlynol."*

**24.** Gwnaeth Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru **egluro'r** effaith bosibl:

> *"Y perygl mawr gyda'r hysbysiad hwn yw pe byddwn, i'r dyfodol, yn cael toriad i'm cyllideb sylfaenol, y byddwn yn cael fy ngorfodi i ad-drefnu fy sefydliad yn ystod misoedd olaf y flwyddyn ariannol…"*

**25.** Gwnaeth cyn Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol **ddweud** bod Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys llinell cyllideb ar gyfer ei swyddfa, yn aml yn dod yn syndod iddi pan gaiff ei chyhoeddi yn y Gyllideb Ddrafft, fel arfer ym mis Rhagfyr. Nododd y dylai llythyr setliad gan y Gweinidog perthnasol gadarnhau sefyllfa derfynol y gyllideb yn ddiweddarach, ond ni chafodd ei swyddfa hwnnw ar gyfer 2022-23. Fodd bynnag, dywedodd cyn Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol iddi dderbyn llythyr gan y Dirprwy Weinidog ar 14 Chwefror 2022.

**26.** **Ychwanegodd** yr ymddangosai bod anghysondeb yn y ffordd y caiff y gyllideb ei chadarnhau, a chroesawyd sicrwydd a rhybudd cynnar lle bo modd, yn enwedig cael llythyr setliad yn gynharach.

## Cyllidebau 2023-24

**27.** Ar gyfer amcangyfrifon ar gyfer 2023-24, **newidiodd** Llywodraeth Cymru y broses a'r amserlen. Bu'r Comisiynwyr yn paratoi ac yn rhannu cynlluniau â swyddogion Llywodraeth Cymru yn gynnar yn haf 2022, ac yna cyflwynodd y Comisiynwyr ragolygon drafft cynnar erbyn mis Gorffennaf 2022. Yna cyflwynwyd yr amcangyfrif ffurfiol ym mis Hydref. **Yn ôl** cyn Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, roedd hyn yn arfer gwell gan fod y terfyn amser statudol yn rhy hwyr yn y broses.

**28.** **Dywedodd** y Comisiynydd Pobl Hŷn y byddai'r dull cynharach yn galluogi Llywodraeth Cymru i fyfyrio ar bwysau costau Comisiynwyr a bod mewn sefyllfa well i wneud penderfyniadau cyflymach a mwy gwybodus ynghylch cyllidebau Comisiynwyr.

**29.** **Nododd** Llywodraeth Cymru fod Gweinidogion wedi gofyn am barhau â'r patrwm o ragolygon drafft cynnar.

### Symud at ddull 'Tymor Llywodraethu'

**30.** Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23 a Chyllideb aml-flwydd gyntaf Cymru ers 2017. Gofynnwyd i ba raddau y mae Gweinidogion Cymru yn darparu lefelau cyllid dangosol ar gyfer y cyfnod y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol ganlynol drwy symud i ddull '**Tymor Llywodraethu**'.

**31.** Roedd **llythyr** y cyn-Ysgrifennydd Gwladol at Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Bumed Senedd yn nodi'r adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o'i pherthynas â'i chyrff hyd braich yn **cynnwys** yr argymhellion "mwyaf blaenllaw" a ganlyn:

> *"…symud o ddefnyddio llythyrau cylch gwaith 'blynyddol', dyfarnu cyllidebau a chynlluniau busnes i fabwysiadu dull 'Telerau Llywodraeth' a fydd yn hwyluso cynllunio ar gyfer y tymor hwy ac yn rhoi mwy o sefydlogrwydd i'n Cyrff Hyd Braich, ac yn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau trosolwg."*

**32.** **Nododd** y Comisiynydd Plant yn nodi y byddai'n croesawu dull 'Tymor Llywodraethu', gan **ddweud**:

> *"Mae'r broses bresennol yn golygu ei bod bron yn amhosibl cynllunio'n strategol yn y tymor hir, oherwydd ansicrwydd ariannu, felly byddwn yn croesawu'r cyfle i symud i ddull gweithredu 'Tymor Llywodraethu' fel bod modd dyrannu adnoddau a chynllunio'n well yn ariannol yn y tymor hir."*

**33.** Byddai'r cyn Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn croesawu dull gweithredu Tymor Llywodraethu tuag at ei ddyraniadau cyllid. **Nododd** y dylid ei archwilio fel mater o frys. **Yn ôl** y Comisiynydd Pobl Hŷn, roedd yr amcangyfrif a gyflwynwyd ganddi yn cynnwys cynllun ariannol tair blynedd, a chroesawodd gynnwys dyraniadau dangosol ar gyfer 2023-24 a 2014-15 yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru. Ychwanegodd:

> *"Mae darparu cyllideb Tymor Llywodraethu yn rhoi imi'r cyfle i gynllunio'n effeithiol o un flwyddyn i'r nesaf, gyda graddau o sicrwydd ynglŷn â'r lefelau ariannu i'r dyfodol. Mae hyn yn galluogi imi sicrhau y gellir cynnal y gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chyflawni fy swyddogaethau statudol o un flwyddyn i'r nesaf, gan gynnwys cyflawni'r argymhellion a wnaed a'r canllawiau a gyhoeddwyd mewn blynyddoedd blaenorol."*

**34.** **Cydnabyddodd** Llywodraeth Cymru yr angen i roi sicrwydd tymor hwy o gyllid i'w phartneriaid i gynorthwyo gyda gwaith cynllunio ariannol. **Dywedodd**:

> *"...Dim ond tan 2024-25 y mae Cymru wedi cael setliad ariannol gan Lywodraeth y DU ac felly mae cwmpas cyfyngedig ar gyfer cynllunio ariannol yn y tymor hwy. Dylid nodi bod cynlluniau Llywodraeth Cymru i roi cyfarwyddyd a sicrwydd tymor hwy i'r Comisiynwyr - ac i bob corff cyhoeddus datganoledig - wedi cael eu heffeithio gan broses ddiwygiedig y gyllideb a'r ymateb eithriadol sydd ei angen gan Drysorlys EM."*

## Ein barn ni

**35.** Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth i Gomisiynwyr cyn dechrau eu paratoadau cyllidebol i gefnogi eu blaengynllunio ariannol. Rydym yn croesawu cadarnhad Llywodraeth Cymru ei bod yn rhannu ei thybiaethau ar gynllunio a phwysau yn ystod ei hymgysylltiad â Chomisiynwyr.

**36.** Nodwn fod swyddogion yn cyfarfod i drafod y cyllidebau. Fodd bynnag, nid ydym yn ymwybodol a oes amserlen ar gyfer trafodaethau o'r fath, ac ar gyfer rhannu gwybodaeth. Fel y cyfryw, rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd drwy osod amserlen ar gyfer pryd y bydd yn darparu gwybodaeth bob blwyddyn. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor pan fydd wedi cytuno ar yr amserlen y mae'n bwriadu ei mabwysiadu.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cytuno ar amserlen ar gyfer darparu gwybodaeth bob blwyddyn i lywio'r broses o baratoi cyllideb y Comisiynwyr. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor pan fydd wedi cytuno ar yr amserlen y mae'n bwriadu ei mabwysiadu.

**37.** Rydym yn nodi barn y Comisiynwyr am yr ymgysylltiad cynharach â Llywodraeth Cymru ynghylch eu Hamcangyfrifon ar gyfer 2023-24 ac yn croesawu cadarnhad Llywodraeth Cymru bod Gweinidogion Cymru wedi gofyn am barhau â'r patrwm o ragolygon drafft cynnar.

**38.** Er bod Llywodraeth Cymru wedi dweud bod prosesau ar waith ar gyfer addasu amcangyfrifon, mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gawsom nad yw'r Comisiynwyr yn ymwybodol o hynny. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am y broses i'r Pwyllgor a'r Comisiynwyr cyn gynted â phosibl.

**39.** Ar ôl cadarnhau bod prosesau ar waith, mae tystiolaeth Llywodraeth Cymru yn awgrymu nad ydynt yn cael eu defnyddio ac y cytunir ar newidiadau i amcangyfrifon gyda'r Comisiynwyr cyn eu cyflwyno erbyn y terfyn amser statudol. Ni esboniodd Llywodraeth Cymru, yn ei thystiolaeth, pam mai hynny oedd y sefyllfa.

**40.** At hynny, gwnaethom nodi fod Comisiynwyr wedi dweud nad ydynt yn aml yn cael yr holl gyllid y gofynnwyd amdano. Byddem yn croesawu eglurhad o'r broses, gan ein bod ar ddeall y dylai'r amcangyfrifon – gydag unrhyw addasiadau y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol – nodi'r cyllid y cytunwyd arno ar gyfer y Comisiynwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor a'r Comisiynwyr am y broses ar gyfer addasu'r amcangyfrifon a gyflwynir gan y Comisiynwyr.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro pam nad yw'n ymddangos ei bod yn defnyddio'r broses addasu i adolygu amcangyfrifon y Comisiynwyr, ac yn egluro pam nad yw'r amcangyfrifon, o bosibl – fel y'u

gosodwyd gerbron y Senedd – yn nodi’r cyllid y cytunwyd arno ar gyfer y Comisiynwyr.

**41.** Rydym yn nodi pryderon y Comisiynwyr ynghylch amseriad y cadarnhad gan Weinidogion Cymru o’u cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod, sy’n aml yn hwyr ac weithiau ar ddechrau’r flwyddyn ariannol y mae’n ymwneud â hi. Rydym yn cydnabod goblygiadau posibl hyn ar waith y Comisiynwyr a'u swyddfeydd. Rydym o’r farn y dylai Llywodraeth Cymru gytuno â’r Comisiynwyr ar amserlen ar gyfer cadarnhau eu dyraniadau cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Gweinidogion Cymru yn cadarnhau’r dyraniadau cyllid i Gomisiynwyr yn unol ag amserlen ddiffiniedig, sy’n rhoi digon o amser i Gomisiynwyr gynllunio cyllidebau eu blynyddoedd dilynol yn unol â hynny, a’i bod yn cymryd agwedd gyson wrth wneud hynny.

**42.** Rydym yn deall y manteision i’r Comisiynwyr o gynnwys dyraniadau dangosol ar gyfer 2023-24 a 2024-25 yng Nghyllidebau Drafft a Therfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23. Rydym yn cytuno bod hyn wedi eu galluogi i gynllunio'n fwy effeithiol. At hynny, nodwn fod Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i roi sicrwydd tymor hwy o gyllid i’w phartneriaid i gynorthwyo gyda gwaith cynllunio ariannol. Fodd bynnag, roedd hynny ond yn bosibl pan ddarparodd Llywodraeth y DU setliad ariannu tan 2024-25, ac nid yw’r arwydd cynnar hwn bob amser yn bosibl.

**43.** Rydym yn nodi fod Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Bumed Senedd wedi argymell, yn ei adroddiad 'Cyflawni ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol: Y Stori Hyd Yma (Mawrth 2021) y dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad o sut y gall ddarparu sicrwydd ariannol tymor hwy i'r cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf hon. Argymhellodd y dylid cwblhau’r adolygiad hwn mewn pryd i lywio penderfyniadau ariannu mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2023-24.

**44.** Gwnaeth Llywodraeth Cymru dderbyn mewn egwyddor yr argymhelliad hwn, gan nodi ei fod yn parhau i fod yn “uchelgais gan Lywodraeth Cymru o hyd i ddarparu cyllidebau tymor hwy i'n partneriaid a'n rhanddeiliaid ac rydym yn dal i fod yn barod i ystyried opsiynau i roi sicrwydd lle y bo hyn yn bosibl, fel y nodir yn ein Cynllun Gwella'r Gyllideb a gyhoeddir ar y cyd â'n Cyllideb Ddrafft”,

**45.** Ychwanegodd Llywodraeth Cymru ei bod yn symud i raglen o Gylchoedd Gwaith Tymor Llywodraethu ar gyfer ei chyrff hyd braich, y dywedodd y “bydd hyn yn fwy cynhyrchiol o lawer os cawn setliadau amlflwydd gan Lywodraeth y DU, a fyddai'n ein galluogi i roi cyllidebau dangosol tymor hwy i gyrff.” Byddem yn croesawu’r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd y mae Llywodraeth Cymru

wedi'i wneud gyda'i chynlluniau i symud i gylchoedd gwaith Tymor Llywodraethu, ynghyd â gwybodaeth am yr amserlenni ar gyfer cwblhau'r ymarfer.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd y mae wedi'i wneud gyda'i rhaglen i symud i gylchoedd gwaith Tymor Llywodraethu ar gyfer ei chyrff hyd braich, ynghyd â gwybodaeth am yr amserlenni ar gyfer cwblhau'r ymarfer.

**46.** Rydym o'r farn y dylai Gweinidogion Cymru osod amcangyfrifon y Comisiynwyr gerbron y Senedd yn amserol, a chyn dechrau'r flwyddyn ariannol y maent yn ymwneud â hi. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod y Senedd a'i Phwyllgorau yn cael cyfle i gynnal gwaith craffu ar yr adnoddau sydd ar gael i Gomisiynwyr, sy'n caniatáu iddynt gyflawni eu swyddogaethau'n effeithiol. At hynny, rydym o'r farn y dylent fod ar gael yn rhwydd ac, felly, dylai Llywodraeth Cymru gynnwys yr amcangyfrif ar ei thudalennau ar y we ar gyfer y Comisiynwyr.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Gweinidogion Cymru yn gosod amcangyfrifon Comisiynwyr Cymru gerbron y Senedd yn amserol, ac ar y cyfle cyntaf, bob blwyddyn yn dilyn eu penderfyniadau ynghylch dyraniadau cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru – er mwyn bod yn agored ac yn dryloyw – yn cyhoeddi amcangyfrifon Comisiynwyr Cymru ar ei thudalennau ar gyfer y Comisiynwyr ar y we.

**47.** Nid oeddem yn gallu cadarnhau bod yr Amcangyfrif ar gyfer 2022-23, ar gyfer Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, wedi'i osod gerbron y Senedd. Gofynnwn i Weinidog perthnasol Cymru gadarnhau a yw wedi'i osod, a pha bryd y gwnaed hyn.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell bod Gweinidog perthnasol Cymru yn cadarnhau a gafodd Amcangyfrif Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar gyfer 2022-23 ei osod gerbron y Senedd, gyda manylion y dyddiad y gwnaed hynny.

# 2. Cynlluniau a heriau ariannol presennol, ac yn y dyfodol

**48.** Gwnaethom geisio asesiad o sefyllfa ariannol bresennol y Comisiynwyr, ac asesiad o'u hanghenion yn y dyfodol, yng nghyd-destun y pwysau ar arian cyhoeddus. Gwnaethom restru rhai themâu a nodwyd gennym o'r dystiolaeth.

## Y sefyllfa ariannol bresennol

### Costau staff

**49.** **Yn ôl** y Comisiynydd Plant roedd costau sefydlog yn cynrychioli "cyfran eithaf sylweddol" o gyfanswm y gwariant. Mae'r rhain yn cynnwys costau staff.

**50.** Dywedodd y **Comisiynydd Pobl Hŷn** a **Chomisiynydd y Gymraeg** fel ei gilydd fod costau staff yn cyfateb i 77 y cant o wariant y swyddfa. Gwnaeth Comisiynydd y Gymraeg **adrodd** fod hyn wedi cynyddu o 59% yn 2012-13, **gan ychwanegu**:

> *"Adeg sefydlu'r corff roedd y strwythur staffio yn cynnwys 47 swydd (cywerth â llawn amser) yn ychwanegol i'r Comisiynydd. Oherwydd toriadau i'r gyllideb nid yw parhau â strwythur o 47 swydd wedi bod yn fforddiadwy. Mae swyddi wedi'u dileu ac mae oriau swyddi eraill wedi'i lleihau. Effaith hyn yw bod nifer y staff cywerth â llawn amser wedi lleihau i 42.8 cywerth â llawn amser (gan gynnwys y Comisiynydd), ac mae hyn wedi cael effaith anochel ar allu'r sefydliad i gyflawni ei amcanion."*

**51.** Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, yn dilyn trafodaethau gyda'r rheolwyr a'r undebau llafur, y byddai staff yn ei gyrff hyd braich yn cael eu talu o leiaf yr un faint â'r isafswm cyflog ar gyfer eu gradd gyfatebol yn Llywodraeth Cymru.

**52.** Nododd Llywodraeth Cymru naw gorff hyd braich y "disgwylir iddynt gael eu hariannu" i gynyddu'r isafswm cyflog ar gyfer un neu fwy o raddau yn eu sefydliadau. Roedd y rhain yn cynnwys Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Comisiynydd Pobl Hŷn. Nid oeddent yn cynnwys y Comisiynydd Plant na Comisiynydd y Gymraeg.

**53.** Cafodd lefelau cyflog ar gyfer y graddau hynny eu hôl-ddyddio i fis Ebrill 2021, gyda Llywodraeth Cymru yn dyrannu hyd at £652,000 y flwyddyn o 2021-22 i 2024-25.

**54.** **Nododd** cyn Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y byddai'n costio £36,000 i alinio strwythurau cyflog y swyddfa, a dim ond £32,000 ohono sydd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru. **Ychwanegodd**:

> *"The gap between cost of minima alignment and WG [Welsh Government] provided support is forecast to increase in future years, further eating into my budget."*

**Costau sefydlog eraill – Ystadau**

**55.** Adroddodd Comisiynydd y Gymraeg am gynlluniau i leihau'r ystâd yn ystod 2023-24 pan ddaw prydlesi i ben neu pan fydd cyfleoedd i dorri prydlesi yn codi. Mae ei Hamcangyfrif 2023-24 yn cyfeirio at gynllun i sicrhau £80,000 o arbedion erbyn blwyddyn ariannol 2024-25. **Yn ôl** Comisiynydd y Gymraeg:

> *"Tu hwnt i'r arbedion mewn perthynas ag ystâd y swyddfeydd, prin yw'r cyfleoedd pellach i wneud arbedion ariannol. Y gwirionedd yw bod pwysau chwyddiant yn debygol o arwain at gynnydd i gostau rhedeg y sefydliad yn y tymor byr/canolig wrth i gyflenwyr geisio cynyddu eu prisiau."*

**56.** **Nododd** y Comisiynydd Plant yn nodi gostyngiad o 64 y cant mewn gofod swyddfa yn 2022-23 o gymharu â 2015-16, a sicrhaodd arbedion cost o £56,000 o'r ddarpariaeth dadfeiliadau a chyfartaledd o £20,000 o arbedion mewn ardrethi a chostau rhentu.

## Effaith ar wasanaethau

**57.** Yn ôl y Comisiynydd Pobl Hŷn, yn 2008, darparwyd cyllid ar gyfer 18 y cant o'r boblogaeth dros 60 oed. Ychwanegodd, yn ôl Cyfrifiad 2021, bod hynny bellach yn 23.5% sef cynnydd o 30%. Pe bai cyllid yn dilyn trywydd tebyg ac yn cael ei addasu ar gyfer chwyddiant, dywedodd y Comisiynydd Pobl Hŷn y byddai ei chyllideb sylfaenol yn £2.910 miliwn, o gymharu â'r £1.684 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer 2023-24. Ychwanegodd y Comisiynydd Pobl Hŷn:

> *"Gyda mwy o adnoddau byddwn yn gallu cynyddu'r capasiti yn fy nhîm cyngor a chymorth er mwyn bodloni'r galw'n well a chynorthwyo rhagor o bobl hŷn sydd angen cefnogaeth."*

**58.** **Nododd** cyn Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fel a ganlyn:

> *"I raised concerns about how my funding level is having a negative impact on the quality and level of my support and advice to Public Bodies and in turn their ability to fulfil their duties under the Act, which I reiterated in my estimate for 2023-24 explaining the real terms cut to the underestimated baseline budget coupled with an increase in demand for my services."*

**59.** Roedd **angen** y canlynol ar ei swyddfa:

> *"... significant additional funding to enable me to discharge both my duties and powers adequately, with more parity with other organisations, considering the very wide remit of my duties, their fluctuating nature and showing the Welsh Government's commitment to support the implementation of such flagship legislation envied worldwide."*

**60.** At hynny, gwnaeth cyn Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol **nodi** fod Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Bumed Senedd wedi **dod i'r casgliad** nad oedd ei chyllideb wedi darparu digon o gapasiti i ddarparu'r lefelau o gymorth ymarferol, a sector-benodol, y maent wedi galw amdanynt i roi'r Ddeddf ar waith i gyrff cyhoeddus yng Nghymru.

**61.** **Nododd** y Comisiynydd Plant y "pwysau sylweddol ar wasanaethau cyhoeddus ac arian cyhoeddus", gan **ychwanegu** na ellir cyflawni hynny "ond drwy sicrhau model ariannu mwy cynaliadwy".

## Pwysau o ran costau yn y dyfodol

### Costau staff

**62.** **Nododd** y Comisiynydd Plant fod ei swyddfa yn wynebu costau staff uwch. Mae hyn yn bennaf oherwydd cynnydd mewn cyfraniadau pensiwn, codiadau cyflog mewn band cynyddrannol sy'n adlewyrchu cyfraniadau yswiriant gwladol

Llywodraeth Cymru a'r cynnydd yng nghyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr. Fe **ddywedodd**:

> *"Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae'r cynnydd mewn costau pensiwn (64%) wedi bod yn sylweddol uwch na'r cynnydd yn ein bil cyflogau (11.4%)."*

**63.** **Nododd** Comisiynydd y Gymraeg yn nodi ei wedi bod yn "heriol" bodloni gofynion yr undebau llafur o ran codiadau cyflog. Cyflawnwyd cynnig Llywodraeth Cymru o 4 y cant drwy arbedion, er ei fod £50,000 yn fwy na'r swm a gynlluniwyd.

**64.** Dywedodd y Comisiynydd Pobl Hŷn fod ei Hamcangyfrif wedi rhagdybio y byddai'n rhoi dyfarniad costau byw o 3 y cant i staff yn 2023-24. Fodd bynnag, adroddodd, os bydd Llywodraeth Cymru yn dyfarnu canran uwch, y bydd disgwyl iddi gyfateb iddi. Ni allai'r Comisiynydd weld ble i wneud arbedion i gyfateb â'r dyfarniad cyflog.

### Diffygion

**65.** **Yn ôl** y Comisiynydd Pobl Hŷn, roedd hi'n yn croesawu cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru o'r pwysau ariannu difrifol a wynebwyd gan ei swyddfa. Fodd bynnag, er bod cyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu i'w swyddfa ar gyfer 2023-24, mae'n dal i ragweld diffyg o £12,000, er ei bod wedi disgwyl gwrthdroi hyn drwy reolaeth ariannol.

### Cyllid ychwanegol ar gyfer 2023-24

**66.** **Dywedodd** Llywodraeth Cymru fod y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol wedi ystyried materion o ran adnoddau a llwyddodd i gynnig cynnydd yng nghyllidebau 2023-24 a 2024-25 ar gyfer y Comisiynydd Plant, y Comisiynydd Pobl Hŷn a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Fodd bynnag, **nododd** nad yw'r codiadau hyn wedi'u gwarantu ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod.

**67.** Dyma a **nodwyd**:

> *"Bydd cynnydd o 6% i gyllid refeniw pob Comisiynydd yn y flwyddyn ariannol nesaf (2023-24). Mae'r codiad hwn yn rhagdybio setliad cyflog o 4% yn 2022-23 (yr un fath ag a weithredwyd yn Llywodraeth Cymru ar gyfer graddau dirprwyedig y tu allan i'r Uwch Wasanaeth Sifil) a chynnydd pellach tybiedig o 2% yn 2023-24. Er y gellir rheoli'r cynnydd hwn yng nghyllidebau presennol y Comisiynwyr ar gyfer 2022-23, bydd y cynnydd yn 2023-24 yn golygu y dylai'r Comisiynydd*

> *allu parhau i weithredu gyda'r niferoedd presennol o staff, a pharhau i sicrhau bod cyflogau staff yn cyd-fynd â graddfeydd cyflog Llywodraeth Cymru. Heb y cyllid hwn, mae'n debygol y byddai'r Comisiynwyr wedi gorfod cael gwared ar rai swyddi".*

**68.** Ychwanegodd Llywodraeth Cymru fod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cael adnoddau hefyd ar gyfer 2022-23 a 2023-24 i hyrwyddo diddordeb rhyngwladol mewn datblygu cynaliadwy a dyheadau agenda llesiant Llywodraeth Cymru.

**69.** Yng nghyd-destun addasiadau i amcangyfrifon y Comisiynwyr, gwnaeth Llywodraeth Cymru ddweud:

> *"Bydd cyfle i Gomisiynwyr wneud newidiadau i'r alldro adnoddau disgwyliedig a'r arian parod sydd ei angen ar unrhyw adeg ac yn ystod y cyfarfodydd adolygu rheolaidd gyda'r tîm partneriaeth."*

### Ein barn ni

**70.** Rydym yn croesawu cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ynglŷn â chydraddoldeb cyflog i staff yn ei chyrff hyd braich, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu talu o leiaf yr un faint â'r isafswm cyflog ar gyfer eu gradd gyfatebol yn Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod cyn Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi awgrymu nad oedd yr arian ychwanegol yn talu'r costau cysylltiedig. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am y dyraniadau disgwyliedig a'r rhai gwirioneddol, yn ogystal ag egluro sut y cafodd y sicrwydd y byddai'r cyllid yn talu'r costau disgwyliedig.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor am y dyraniadau cyllid ychwanegol – a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2022 – ar gyfer cydraddoldeb cyflog yn y cyrff hyd braich. Dylai hyn gynnwys y dystiolaeth a oedd yn sail i'r penderfyniad ar y dyraniadau disgwyliedig a gwirioneddol, yn ogystal â sicrwydd bod y cyllid a ddyrannwyd yn bodloni'r costau cysylltiedig.

**71.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r costau staff sylweddol a'u heffaith ar y Comisiynwyr a'u cyllideb. Mae'r gyfran o gyllideb y Comisiynwyr a neilltuir i gostau staff yn golygu bod dyfarniadau cyflog yn cael effaith anghymesur ar adnoddau Comisiynwyr, gyda'r potensial nad oes digon o adnoddau ar gael iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyllid ychwanegol a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, ond rydym yn parhau i bryderu am yr

effaith ar adnoddau staffio yn y dyfodol a achosir gan gostau staff cynyddol, nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu gan gynnydd mewn cyllid.

# 3. Cydweithrediadau

**72.** Cyfeiriodd casgliad ac argymhelliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn benodol at sicrhau arbedion maint drwy rannu swyddogaethau cefn swyddfa.

**73.** Roedd hyn yn rhywbeth a archwiliwyd gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Pedwerydd Cynulliad. Tra'n nodi ei sylwadau am gyfyngiadau'r Comisiynwyr ar y pryd i wireddu arbedion drwy fwy o gydweithio ac uno swyddogaethau cefn swyddfa, gwnaethom geisio diweddariad gan y Comisiynwyr ynghylch y modd y maent yn cydweithio a'r manteision sy'n deillio o unrhyw gydweithio neu rannu swyddogaethau cefn swyddfa a staff. At hynny, gwnaethom ofyn beth a ddysgwyd o'r profiadau hyn, a oedd unrhyw swyddogaethau'n cael eu rhannu â chyrff/rheoleiddwyr cyhoeddus eraill yng Nghymru.

**74.** Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, rhoddodd y Comisiynwyr enghreifftiau o'r modd y maent yn cydweithredu ac yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff eraill. Er nad yw'n rhestr gyflawn, roedd yr enghreifftiau a ganlyn yn eu plith:

- Mae **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth** ar waith rhwng y pedwar Comisiynydd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon), sy'n cyfeirio'n uniongyrchol at y ffaith bod y sefydliadau'n "agored i weithio ar y cyd lle gallai hynny fod yn fwy effeithiol a phriodol o ran ein cylchoedd gwaith".
- **Cyfleoedd secondiad** mewnol ac allanol.
- Cydweithredu ar **gaffael hyfforddiant a chaffael archwilio ar y cyd**; cefnogi cyfweliadau ar draws sefydliadau, darparu cyfleusterau desgiau poeth a rhannu gofod swyddfa. Er enghraifft, mae **Comisiynydd y Gymraeg yn is-osod** lle mewn swyddfa i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.
- **Cyfarfodydd ar y cyd** rhwng y Comisiynwyr, yr Ombwdsmon a'r Archwilydd Cyffredinol i drafod eu rolau fel corfforaethau undyn a gwaith sefydliadau.
- **Yn ôl** cyn Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fod cydweithredu, gan gynnwys rhannu staff, wedi cynyddu arbenigedd a chroesffrwythloni gwybodaeth a sgiliau. Fel y cyfryw, roedd ei swyddfa yn awyddus i barhau i gydweithredu, yn yr un modd â'r Comisiynwyr eraill.

**75.** Fodd bynnag, **nododd** Comisiynydd y Gymraeg y "gall rhannu adnoddau arwain at brofiadau cadarnhaol a negyddol", gan **ychwanegu**:

> *"...ei bod yn hanfodol ystyried yn ofalus beth yw buddion a'r traweffaith posibl o rannu adnoddau cyn gorbwyso'r manteision arbedion ariannol posibl."*

## Arbedion/Manteision

**76.** Cafwyd enghreifftiau gan rai o'r Comisiynwyr o'r arbedion costau y maent wedi'u gwneud. Er enghraifft, gwnaeth Comisiynydd y Gymraeg **is-osod** lle mewn swyddfa i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol rhwng mis Ebrill 2016 a mis Rhagfyr 2018, gan arbed £177,000.

**77.** Fodd bynnag, **nododd** y Comisiynydd Pobl Hŷn fod cyfyngiadau o ran arbedion costau:

> *"Er fy mod yn cydnabod pwysigrwydd cydweithredu a'r gwir fanteision a geir drwy weithio fel hyn, ychydig iawn o arbedion costau y gellir eu gwneud i'm sefydliad i, fel y cydnabu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn 2015 a Llywodraeth Cymru yn 2016."*

**78.** Yn ôl y **Comisiynydd Pobl Hŷn** a'r **Comisiynydd Plant** fel ei gilydd, nid yw eu staff yn gweithredu mewn seilo; maent yn gweithio ar draws arbenigeddau ac, fel y cyfryw, nid yw'r cysyniad o staff 'cefn y swyddfa' yn berthnasol. **Nodwyd** nad oedd "Comisiynydd y Gymraeg wedi gallu manteisio ar hyn". Ychwanegodd fod ei swyddfa yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg.

**79.** **Yn ôl** cyn Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol:

> *"Collectively, between the Commissioners offices, we think that working on joint programmes and sharing resources to help us deliver front line activities would be more efficient than sharing back-office resources"*

### Ein barn ni

**80.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r enghreifftiau o gydweithio a amlinellwyd gan y Comisiynwyr ac yn annog y rhain lle mae manteision amlwg i'r ddwy ochr o wneud hynny, yn ogystal â meysydd ar gyfer cydweithio. Fodd bynnag, mae'n nodedig bod y dystiolaeth a roddwyd gan y Comisiynwyr yn cyd-fynd â'r dystiolaeth a glywyd gan y Pwyllgor a'n rhagflaenodd: Mae cyfyngiadau clir i'r arbedion y gellir eu gwneud.

**81.** Er ein bod yn annog y Comisiynwyr i gydweithio i nodi meysydd pellach posibl o gydweithio, rydym yn cydnabod y gall rhwystrau fodoli sy'n gwneud hyn yn anymarferol.

# Newidiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig)

## Y cefndir

**82.** Daeth y **diwygiadau i Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018** ym mis Rhagfyr 2021 â'r Comisiynwyr o fewn ffin gyfrifyddu Llywodraeth Cymru, a **ddaeth i rym** ym mis Chwefror 2022.

**83.** Yn y Cyfrifon ac Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021-22, **nododd** Comisiynydd dros dro'r Gymraeg (ar y pryd) effaith y newid ar wybodaeth y sefydliad am reolaeth ariannol a chyllidebol:

- Caiff y cyllid sydd wedi'i ddyrannu i'r sefydliad o fewn cyllideb Llywodraeth Cymru ei chymeradwyo gan Senedd Cymru;
- caiff cyllideb ei gosod ar gyfer adnoddau, cyfalaf a gwariant nad yw'n arian parod;
- ni ddylai'r sefydliad wario tu hwnt i'r gyllideb hon, heb dderbyn cymeradwyaeth cyllideb atodol gan Lywodraeth Cymru, yn dilyn cais am gyllid ychwanegol;
- caiff proses ei roi ar waith i fonitro gwariant yn erbyn y gyllideb;
- ni ddylid tynnu lawr arian parod tu hwnt i ofynion y sefydliad; ac
- ar ddiwedd unrhyw chwarter ni ddylid cadw mwy o arian yn y banc na'r hyn sy'n gyfwerth â 5% o gyllideb grant cymorth flynyddol.

**84.** Gwnaeth y Pwyllgor ystyried effaith y dynodiad o bob swyddfa yn sgil y newidiadau i Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018 ar y sefyllfa ariannol bresennol y Comisiynydd, ac yn y dyfodol. Gwnaethom drafod y prif heriau wrth symud i'r trefniadau newydd a'r newidiadau mwyaf arwyddocaol o ganlyniad iddynt.

## Effaith

### Cronfeydd wrth gefn

**85.** Yn hanesyddol, roedd y Comisiynwyr yn gallu defnyddio cronfeydd wrth gefn heb ofyn am arian wrth gefn yn y gyllideb adnoddau gan Lywodraeth Cymru. Defnyddiwyd cronfeydd wrth gefn i reoli gofynion gwariant ychwanegol. Fodd bynnag, ni allant wneud hynny bellach, ac mae pob Comisiynydd yn codi hyn fel mater yn eu tystiolaeth ysgrifenedig (y Comisiynydd Plant, a gyfeiriodd at y

cronfeydd wrth gefn fel y 'gronfa gyffredinol', Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r Comisiynydd y Gymraeg).

**86.** **Yn ôl** Comisiynydd y Gymraeg, rhagdybir bod y system newydd – ar sail profiadau cynnar – yn ei gwneud yn anodd i'r Comisiynwyr bontio'r cyfnod rhwng diwedd un flwyddyn ariannol a dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf.

**87.** **Yn ôl** Llywodraeth Cymru:

> *"Bydd cyfle i Gomisiynwyr wneud newidiadau i'r alldro adnoddau disgwyliedig a'r arian parod sydd ei angen ar unrhyw adeg ac yn ystod y cyfarfodydd adolygu rheolaidd gyda'r tîm partneriaeth. Os yw'r Gweinidog yn cymeradwyo unrhyw newidiadau, mae dwy ffordd o ddarparu cyllideb adnoddau ychwanegol, er bod y ddwy yn cynnwys ysgrifennu at y Comisiynydd i'w hysbysu yn ffurfiol am y newidiadau."*

**Annibyniaeth Comisiynwyr**

**88.** **Yn ôl** y Comisiynydd Plant:

> *"…mae cynnwys ein swyddfa yn y Gorchymyn yn cyflwyno risg, yr ydym wedi tynnu sylw Llywodraeth Cymru ati ar sawl achlysur, gan fod canlyniadau anfwriadol posibl i'r newidiadau hyn mewn perthynas ag annibyniaeth y sefydliad hwn."*

**89.** Ategir hyn gan Gomisiynydd y Gymraeg, wnaeth **nodi** y gallai sefyllfa godi lle mae'n angenrheidiol i'r Comisiynydd gynnal ymchwiliad, neu ymchwilio i achos cyfreithiol arwyddocaol sy'n ymwneud â Llywodraeth Cymru, neu y mae'n barti iddo.

**90.** Gwnaeth cyn **Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol** yr un sylwadau ynghylch annibyniaeth – yn yr un modd â'r Comisiynydd Pobl Hŷn – wnaeth **nodi** fel a ganlyn:

> *"Rhwng 2008 a Mawrth 2022, llwyddom i gadw'r cronfeydd wrth gefn a'u rheoli'n annibynnol. Fe wnaeth y cronfeydd wrth gefn hyn chwarae rhan holl bwysig yn fy null rheoli ariannol cyffredinol a buont yn holl bwysig i gynnal fy annibyniaeth ar Lywodraeth Cymru ac i gyflwyno fy Nghynllun Strategol yn llwyddiannus. Fe wnaethant fy ngalluogi i reoli risg yn effeithiol, sicrhau parhad y busnes a'r gallu i*

> *gyflawni yn erbyn fy nyletswyddau statudol yn wyneb materion annisgwyl ac anrhagweladwy.”*

**91.** At hynny, **dywedodd** y Comisiynydd Pobl Hŷn hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi mesurau ar waith i liniaru'r risg i annibyniaeth Comisiynwyr, yn yr un modd â **Chomisiynydd y Gymraeg**. Gwnaethant nodi, pe bai Comisiynydd yn gofyn am gyllid ychwanegol i gynnal ymchwiliad neu achos cyfreithiol, y Prif Weinidog neu Weinidog arall, yn hytrach na’r Gweinidog sy’n gyfrifol am ddyrannu cyllid i’r Comisiynydd, fyddai’n penderfynu ar hyn.

**92.** Tra'n cydnabod y camau hyn, roedd y Comisiynydd Pobl Hŷn **o’r farn** fod risg o wrthdaro buddiannau posibl yn dal i fodoli.

**93.** **Yn ôl** y Comisiynydd Plant:

> *“O ganlyniad i’r gorchymyn [effaith y dynodiad], mae rhaid i ni wneud cais am gyllid ychwanegol i ymgymryd â darnau o waith, megis adolygiadau statudol neu archwiliadau o Lywodraeth Cymru, gan Lywodraeth Cymru ei hun. Mae diffyg eglurder yn parhau ynghylch y dull o ofyn am hyn neu’r rhesymeg wrth ganiatáu hynny a sut mae’n digwydd. O ganlyniad, gallai hyn beryglu annibyniaeth fy swyddfa a chyfyngu ar fy ngallu i ymgymryd â gwaith ychwanegol.”*

**94.** **Ychwanegodd** y gellid lliniaru’r risg pe bai cynlluniau’n cael eu rhoi ar waith i wneud y swyddfa hon yn atebol i’r Senedd, yn hytrach na Gweinidogion Cymru.

**95.** Yn yr un modd, **nododd** cyn Gomisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol fel a ganlyn:

> *“On the question of independence, it might be useful for the Committee to explore and make recommendations as to whether our independent offices should be funded by government or by parliament.”*

### Cymorth ac ymateb Llywodraeth Cymru

**96.** **Dywedodd** Llywodraeth Cymru “n[a]d oes angen unrhyw gymorth ar gyfer y broses ddynodi heblaw i egluro'r broses a'r effaith. Rydym wedi gwneud hyn droeon ers yr ymgynghoriad cyntaf yn 2019”. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn **parhau** i weithio gyda’r Comisiynwyr a’r holl gyrff cyhoeddus perthnasol o ran gweithrediad y fframwaith ariannol.

**97.** Nododd ei bod wedi **cynyddu** terfynau arian parod y Comisiynwyr:

> *"Er mwyn sicrhau nad yw lefelau gormodol o arian parod yn cronni, mae gan Lywodraeth Cymru oddefiant safonol o 4 y cant o'r cymorth grant arian parod a gafwyd yn ystod y flwyddyn a 2 y cant ar ddiwedd y flwyddyn. Gan y gallai fod angen arian parod ar y Comisiynwyr i ymchwilio i un o Weinidogion Cymru neu Lywodraeth Cymru, cynyddwyd y goddefiant hwn i 5 y cant ar gyfer pob Comisiynydd a chytunwyd ar drefniadau a fyddai'n osgoi gorfod ceisio cyllideb adnoddau i gynnal yr ymchwiliadau hyn gan y Gweinidog sy'n cael ei ymchwilio pe bai'r sefyllfa hon yn codi."*

**98.** **Ychwanegodd** y bydd y fframwaith – y cytunwyd arno ac a roddwyd ar waith gyda'r Comisiynwyr – yn adlewyrchu hyn.

**99.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, **nododd** cyn Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fel a ganlyn:

> *"The Minister for Social Justice recognised the difficulties that I faced with operating within a very limited budget and as an interim measure, my grant-in-aid for 2021-22 was increased to allow me to carry over into 2022-23 a level of useable reserves of £300k. Another £171K has been proposed for 23-24."*

### Ein barn ni

**100.** Rydym yn rhannu pryderon y Comisiynwyr mewn perthynas â'r cyfyngiadau ar eu defnydd o gronfeydd wrth gefn yn dilyn dynodi – o fis Chwefror 2022 – eu swyddfeydd yn ffiniau cyfrifyddu Llywodraeth Cymru. Nodwn – gyda phryder – y risgiau cysylltiedig i'w hannibyniaeth, a chanlyniadau anfwriadol posibl eraill. Byddem yn croesawu gwybodaeth am y broses y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei mabwysiadu mewn amgylchiadau o'r fath.

**101.** At hynny, nodwn bod y lliniaru yn ymddangos fel pe bai'n cynnwys cynnydd yn lefel yr arian parod y mae Llywodraeth Cymru yn caniatáu i'r Comisiynwyr ei ddal, i fynd i'r afael â'r risg sy'n ymwneud â'r ffaith nad oes ganddynt ddigon o adnoddau i ymchwilio i Weinidogion Cymru neu Lywodraeth Cymru, pe bai angen iddynt wneud hynny. Fodd bynnag, byddai'r Pwyllgor yn croesawu gwybodaeth am y dystiolaeth sy'n cefnogi lefel y cynnydd yn y terfynau arian parod y cytunwyd arnynt ar gyfer Comisiynwyr, yn ogystal â'r ymgysylltiad rhwng y partïon yn ei gylch.

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am y broses sydd i'w mabwysiadu ganddi, neu Weinidogion Cymru, i fynd i'r afael â gwrthdaro buddiannau posibl, sy'n deillio o gynnwys y Comisiynwyr o fewn ffiniau cyfrifyddu Llywodraeth Cymru a'r cyfyngiadau cysylltiedig ar eu defnydd o gronfeydd wrth gefn. Yn fwyaf arwyddocaol, y risgiau cysylltiedig i annibyniaeth lle mae Comisiynydd yn gofyn am yswiriant cyllidebol ychwanegol neu gyllid ar gyfer adolygiad neu ymchwiliad i Weinidogion Cymru neu Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 11.** Mae'r Comisiynwyr yn nodi materion o ran y cyfyngiadau ar eu defnydd o gronfeydd wrth gefn yn dilyn dynodi – o fis Chwefror 2022 – eu swyddfeydd yn ffiniau cyfrifyddu Llywodraeth Cymru. O ystyried y risg gysylltiedig i annibyniaeth a chanlyniadau anfwriadol eraill posibl, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu effaith y newidiadau ar ôl iddynt fod ar waith ers dwy flynedd, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor erbyn mis Medi 2024.

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybodaeth am y dystiolaeth sy'n cefnogi lefel y cynnydd yn y terfynau arian parod y cytunwyd arnynt ar gyfer Comisiynwyr, yn ogystal â'r ymgysylltiad rhwng y partïon yn ei gylch.

**102.** O ystyried y newidiadau i'w rheolaeth gyllidebol ac ariannol, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu – ar ôl iddynt fod ar waith am ddwy flynedd – effaith dwyn y Comisiynwyr o fewn ei ffiniau cyfrifyddu.

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r effaith ar y Comisiynwyr o'u dwyn o fewn ei ffiniau cyfrifyddu. Dylid cwblhau hyn ddwy flynedd ar ôl i newidiadau o'r fath fod ar waith, a dylid rhoi diweddariad i'r Pwyllgor erbyn mis Medi 2024.

# 4. Adolygiad ôl-ddeddfwriaethol

**103.** Roedd ein gwaith casglu tystiolaeth yn ystyried rolau a chyfrifoldebau pob un o Swyddfeydd y Comisiynwyr, a cheir manylion cynhwysfawr ohonynt yn eu priod **ymatebion**. Gwnaethom archwilio sut mae'r rhain wedi newid dros amser, a goblygiadau unrhyw effeithiau ariannol y newidiadau hyn.

**104.** Mae pob Comisiynydd wedi nodi newidiadau i'w rolau a'u cyfrifoldebau ers sefydlu'r swyddi. Fodd bynnag, maent yn adrodd nad yw'r cyllid a gânt gan Lywodraeth Cymru wedi'i godi i adlewyrchu'r rolau a'r cyfrifoldebau ychwanegol a/neu nad yw wedi cadw i fyny â chwyddiant, newidiadau i'r demograffig a strategaethau Llywodraeth Cymru.

**105.** Er enghraifft, **nododd** y Comisiynydd Plant newidiadau i'w rolau a'i chyfrifoldebau, gan ychwanegu:

> *"…bod yr holl weithgareddau cysylltiedig sy'n deillio o'r newidiadau hyn [i rolau a chyfrifoldebau'r swyddfa ers sefydlu'r rôl] yn cael eu croesawu gan y swyddfa hon, ond tynnir sylw atynt yma at ddibenion yr ymchwiliad hwn i dystio i'r ffaith bod cwmpas ein gwaith wedi cynyddu, ond nad yw'r un peth yn wir am ein cyllid."*

**106.** **Yn ôl** Comisiynydd y Gymraeg, mae cyllid ei sefydliad wedi cael ei erydu mewn termau real o 37% dros y 10 mlynedd hyd at 2021-22. **Yn ôl** y Comisiynydd Pobl Hŷn, wedyn:

> *"Pe byddai'r amcangyfrifon costau a ddefnyddiodd Llywodraeth Cymru yn 2008 ar gyfer rhedeg fy swyddfa yn effeithiol wedi dilyn chwyddiant, byddai fy nghyllid sylfaenol ar gyfer 2023/24 yn awr yn £2,238,000, sy'n £554,000 neu'n 38% yn fwy na fy nghyllideb sylfaenol ar gyfer 2023/24."*

**107.** Gwnaeth cyn Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol **ddweud** bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol – a oedd yn cyd-fynd â Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) – wedi cynnwys amcangyfrifon o'i oblygiadau ariannol a oedd yn tanamcangyfrif yn sylweddol gostau cyflawni'r dyletswyddau statudol a osodwyd ar y rôl.

**108.** **Eglurodd** – ymhlith pethau eraill – mai'r rheswm dros hynny oedd oherwydd ar y pryd na ellid gwybod y byddai cyrff cyhoeddus rhyngddynt yn pennu dros 350

o amcanion llesiant, gyda miloedd o gamau i'w cyflawni. **At hynny**, dywedodd bod ei deddfwriaeth lywodraethol wedi ei hatal rhag creu elw drwy godi tâl am wasanaethau, a fyddai'n ddefnyddiol i ddod ag incwm newydd yn ei barn hi.

**109.** **Dywedodd** Llywodraeth Cymru fod llawer o fanteision posibl i gynnal gwerthusiad ôl-ddeddfwriaethol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys rôl y Comisiynydd. Gwnaeth y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol **gynghori** swyddogion i archwilio'r cwmpas a'r angen am werthusiad gyda diweddariad i'w roi i'r Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol "yn ddiweddarach yn 2023".

**110.** Dywedodd Llywodraeth Cymru nad oes unrhyw adolygiadau ffurfiol wedi'u cynnal i ystyried costau'r Comisiynwyr eraill, ac eithrio adolygiad 2014 o'r Comisiynydd Plant.

### Ein barn ni

**111.** Nodwn ei bod yn ymddangos bod tystiolaeth Llywodraeth Cymru yn ailbwysleisio'r **ymateb** a gafwyd gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ym mis Mai 2022 i argymhelliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol. Yn ôl yr argymhelliad hwnnw, dylai Llywodraeth Cymru gynnal gwerthusiad yn edrych ar gwmpas gwaith a chyfrifoldebau'r Comisiynydd, gyda'r bwriad o nodi cynllun i gefnogi unrhyw ehangu yn y dyfodol. O'r herwydd, mae'n awgrymu nad oes llawer o gynnydd wedi'i wneud yn y misoedd ers hynny. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith hwn, gan gynnwys yr amserlen ar gyfer ei gwblhau a pha bryd y mae swyddogion yn disgwyl rhoi cyngor i'r Gweinidog.

**112.** Rydym yn nodi'r dystiolaeth gan y Comisiynwyr bod eu rolau a'u cyfrifoldebau wedi ehangu drwy newidiadau i'w deddfwriaeth lywodraethu ac o ganlyniad i ddeddfwriaeth arall sy'n gosod gofynion arnynt. Dylai fod gan swyddfeydd pob Comisiynydd adnoddau digonol i addasu i gylchoedd gwaith ehangach. Fel y cyfryw, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu pob Comisiynydd, gan gynnwys y cyllid a ddyrennir iddynt a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor maes o law.

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad y mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol wedi gofyn i'w swyddogion ei gynnal i gwmpas gwaith a chyfrifoldebau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Dylai'r diweddariad nodi'r

amserlen ar gyfer ei gwblhau a pha bryd y mae swyddogion yn disgwyl rhoi cyngor i'r Gweinidog.

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu pob Comisiynydd, gan gynnwys y cyllid a ddyrennir iddynt a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor maes o law.

**113.** Mae'n bwysig bod yr amcangyfrifon o oblygiadau ariannol deddfwriaeth arfaethedig yn cydnabod yr holl sefydliadau sy'n debygol o gael eu heffeithio gan ei darpariaethau, gyda'r costau a'r arbedion/manteision ychwanegol wedi'u cynnwys yn y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i'r Comisiynwyr pan fydd deddfwriaeth newydd yn effeithio ar rolau a chyfrifoldebau'r Comisiynwyr.

**Argymhelliad 16.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu a allai deddfwriaeth newydd effeithio ar gylch gwaith Comisiynwyr Cymru, gan sicrhau bod yna adnoddau digonol ar gyfer ymgorffori estyniadau i'w rolau a'u cyfrifoldebau.

# Atodiad 1: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Ymatebwyr |
|---|---|
| **CFS 01** | Comisiynydd Plant Cymru |
| **CFS 02** | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru |
| **CFS 03** | Comisiynydd y Gymraeg |
| **CFS 04** | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| **CFS 05** | Llywodraeth Cymru |